YR AELOD CABINET DROS ADFYWIO, HAMDDEN, DIWYLLIANT A THWRISTIAETH

DYDD Mawrth, 4 Mehefin 2024

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd: H.A.L. Evans (Aelod o'r Cabinet)

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:
M. E. Pemberton, Cydlunydd Rhaglenni Gwledig
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Ystafell Bwyllgor 1 (Ystafell Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd) - Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 10.00 - 10.10 yb

1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

2. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 9FED MAI, 2024

PENDERFYNWYD llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 9 Mai, 2024 yn gofnod cywir.

3. CYMORTH ARIANNOL GAN Y CRONFEYDD GRANT CANLYNOL: CRONFA ARLOESI GWLEDIG

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried cais gan Ymddiriedolaeth Gelli Aur am gymorth gan y Gronfa Arloesi Gwledig.

Dywedwyd bod Gelli Aur, ger Llandeilo, yn cael ei adnabod fel un o'r ystadau tai gwledig pwysicaf yng Nghymru. Fodd bynnag, nodwyd bod yr ystad mewn cyflwr gwael gan arwain at i'r Ymddiriedolaeth geisio cymorth i achub yr ystad gyfan o'i chyflwr presennol a chreu dyfodol cynaliadwy i'r safle.

Rhoddodd yr adroddiad wybodaeth fanwl am y prosiect arfaethedig a fyddai'n cynnal adolygiad o hyfywedd yr ystad yn y dyfodol gan ddarparu cynllun gweithredu i'r Ymddiriedolaeth ar ffyrdd y gellid ailddatblygu'r ystad fel menter gynaliadwy i ddenu buddsoddiad a sicrhau ei dyfodol.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais gan Ymddiriedolaeth Gelli Aur am gymorth o £44,901 gan y Gronfa Arloesi Gwledig yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad.

_____ _____

AELOD O'R CABINET **DYDDIAD**

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council